



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig  
a Cheltaidd Prifysgol Cymru  
University of Wales Centre for  
Advanced Welsh and Celtic Studies

# Gorwelion

Cynhadledd Ryngwladol  
International Conference

# Croeso

Mae'n bleser mawr gen i eich croesawu i gynhadledd Gorwelion i ddathlu deugainmlwyddiant Canolfan Uwchefryd Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Rwyf yn ddiolchgar i Dr Rhodri Llwyd Morgan a'n cyfeillion yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru am gael cynnal y digwyddiad yma, ac am gael cydweithio ar sawl prosiect, yn eu plith y *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–1800* a'r *Bywgraffiadur Cymreig*. Gwerthfawrogwn hefyd haelioni'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru fel prif noddwyr y gynhadledd.



Rwyf yn hynod falch o gael croesawu'r Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, i agor y gynhadledd. Diolch yn ogystal i'n tri phrif ddarllithydd, Dr Ian Stewart, yr Athro Mererid Hopwood a'r Athro Barry Lewis, ac i'r 70 o siaradwyr a fydd yn cyflwyno ffrwyth eu hymchwil ym meysydd rhagoriaeth y Ganolfan. Croeso i chi gyd.

Mae'r gynhadledd yn coffáu cyfraniad neilltuol ail Gyfarwyddwr y Ganolfan, y diweddar Athro Emeritws Geraint H. Jenkins, a gollwyd yn gynharach eleni. Croesawn hefyd deulu'r diweddar Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, y Cyfarwyddwr cyntaf, ac fe gawn bapur gan yr Athro Emeritws Dafydd Johnston, y trydydd Cyfarwyddwr. Fel Is-Ganghellor, rwyf yn ymhyfrydu yn y Ganolfan a'i gwaith. Dros gyfnod o bedwar degawd, llwyddodd i gynnal prosiectau ymchwil cydweithredol o'r safon academaidd uchaf. Mae'r gynhadledd yn gyfleoedd i longyfarch pob aelod o staff a'r Cyfarwyddwr, yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones.

Mae i'r Ganolfan rôl unigryw fel prif ganolfan ymchwil Cymru i iaith, llenyddiaeth a diwylliant ein cenedl, gan feithrin cysylltiadau ar draws y diwylliannau Celtaidd a'r byd ehangach. Mae'n pontio'r bwlc rhwng ysgolheictod a'r gymdeithas, gan sicrhau bod cyfoeth treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn parhau i lywio, ysbrydoli a chysylltu cymunedau. Wrth dalu teyrnged i'r rhai a osododd ein sylfeini, mae ein llygaid ar y dyfodol, at ein Gorwelion, ac ar y llwyddiannau sydd i ddod.

It is my great pleasure to welcome you to the Gorwelion conference to celebrate the fortieth anniversary of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies. I am grateful to Dr Rhodri Llwyd Morgan and our friends at the National Library of Wales for hosting us and for their co-operation on many projects, including the *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–1800* and the *Dictionary of Welsh Biography*. We also appreciate the generosity of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol and the Learned Society of Wales as the conference's main sponsors.

I am also delighted to welcome the Right Honourable Mark Drakeford MS, Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language, who will open the conference. Thank you too to our three keynote speakers: Dr Ian Stewart, Professor Mererid Hopwood and Professor Barry Lewis, and to the more than 70 researchers who will present their research in the Centre's fields of excellence. Welcome to you all.

The conference commemorates the exceptional contribution of CAWCS's second Director, the late Emeritus Professor Geraint H. Jenkins, who sadly passed away earlier this year. We also welcome the family of the late Emeritus Professor R. Geraint Gruffydd, the first Director, and look forward to hearing the paper presented by Emeritus Professor Dafydd Johnston, the third Director. As Vice Chancellor, I am incredibly proud of the Centre and its work. For four decades it has delivered collaborative research projects of the highest academic standing. The conference gives us the opportunity to congratulate all members of staff and the Director, Professor Elin Haf Gruffydd Jones.

CAWCS holds a unique position as Wales's leading hub for research into our nation's language, literature and culture, while fostering connections across Celtic cultures and the wider world. It bridges the gap between scholarship and society, ensuring that the richness of Wales's cultural heritage continues to inform, inspire and connect communities. As we pay tribute to those who laid the foundations, we look to the future, towards our Gorwelion, and to further successes.

Dymunaf gynhadledd ragorol i chi gyd  
I wish you all an excellent conference

Yr Athro/Professor Elwen M. Evans, KC



R. Geraint Gruffydd, J.E. Caerwyn Williams, Geraint H. Jenkins, Elin Haf Gruffydd Jones & Dafydd Johnston

## Eleni, dathlwn 40 mlynedd ers sefydlu Canolfan Uwchefryd Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

Drwy'r 1950au a dechrau'r 1960au, buasai nifer o ysgolheigion, gan gynnwys Dr Elwyn Davies, yr Athro Griffith John Williams a'r Athro Thomas Jones, yn dyheu am gael canolfan ymchwil yng Nghymru, ar lun yr Ysgol Astudiaethau Celtaidd yn Athrofa Uwchefryd Cymreig Dulyn (DIAS).

Ym 1975, yn dilyn marwolaeth T. H. Parry-Williams, lansiwyd apêl i greu canolfan o'r fath. Derbyniwyd rhoddion ariannol a llyfrau, a darparodd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gartref dros dro yn yr Hen Goleg. Pan ymddeolodd yr Athro J. E. Caerwyn Williams ym 1979, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Mygedol y sefydliad newydd a fedyddiwyd yn Ganolfan Uwchefryd Cymreig a Cheltaidd.

Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Bwyllgor Grantiau'r Prifysgolion ar gyfer cyflogi tîm o ymchwilwyr i olygu holl farddoniaeth Beirdd y Tywysogion, dan gyfarwyddyd yr Athro R. Geraint Gruffydd gyda'r Athro J. E. Caerwyn Williams yn Olygydd Ymgynghorol. Amod dyfarnu'r cylid oedd bod y sefydliad yn rhan o'r Brifysgol ffederal. Agorwyd Canolfan Uwchefryd Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru ar 1 Hydref 1985.



Ychydig yn ddiweddarach, dyfarnodd Pwyllgor Grantiau'r Prifysgolion gyllid sylweddol i godi adeilad newydd rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a champus Coleg Aberystwyth. Yna daeth y newyddion fod Dr Elwyn Davies wedi gadael dros hanner miliwn o bunnoedd i Brifysgol Cymru yn ei ewyllys a buddsoddyd yr arian er budd gwaith ymchwil y Ganolfan.

Gan fod staff Geiriadur Prifysgol Cymru, a oedd wedi eu lleoli yn y Llyfrgell Genedlaethol er 1921, yn gyflogedig gan Fwrdd Gwybodaeth Celtaidd Prifysgol Cymru, penderfynwyd codi adeilad addas i'r Ganolfan a'r Geiriadur ynghyd. Agorwyd yr adeilad newydd yn swyddogol gan yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos ar 28 Mai 1993.

## This year, we celebrate 40 years since the foundation of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies

Throughout the 1950s and early 1960s, a number of scholars, including Dr Elwyn Davies, Professor Griffith John Williams and Professor Thomas Jones, had longed for a research centre in Wales, similar to the School of Celtic Studies at the Dublin Institute of Advanced Studies (DIAS).

In 1975, following the death of T. H. Parry-Williams, an appeal was launched to create such a centre. Financial donations and books were received, and the University College of Wales, Aberystwyth, provided a temporary home in the Old College. When Professor J. E. Caerwyn Williams retired in 1979, he was appointed Honorary Director of the new institution, the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies.



Ann Parry Owen, Nerys Ann Jones, Llinos Young, Peredur I. Lynch, Morfydd E. Owen, J.E. Caerwyn Williams & R. Geraint Gruffydd

A successful application was submitted to the Universities Grants Committee to employ a team of researchers to edit the Poetry of the Princes, under the directorship of Professor R. Geraint Gruffydd and the Consultant Editor Professor J. E. Caerwyn Williams. A condition of the award was that the institution should be part of the federal University. The University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies was opened on 1 October 1985.

Subsequently, the University Grants Committee awarded substantial funding for a new building between the National Library and the Aberystwyth College campus. Then came the news that Dr Elwyn Davies had bequeathed over half a million pounds to the University of Wales and this money was used to support the Centre's research.

As the staff of the University of Wales Dictionary, who had been based at the National Library since 1921, were employed by the University of Wales Board of Celtic Studies, it was decided that the building would house both the Centre and the Dictionary. The new building was officially opened by Lord Cledwyn of Penrhos on 28 May 1993.

# Ymchwil y Ganolfan Research at the Centre

Mae dathlu'r deugainmlwyddiant yn gyfle i edrych ar uchafbwyntiau'r degawdau diwethaf yn ogystal â hoelio'n sylw ar lwyddiannau diweddar a chyfeiriad y Ganolfan i'r dyfodol.

Yn greiddiol i'n cenadwri mae cydweithio ar brosiectau ymchwil. Arloesodd y Ganolfan yn y dull hwn o weithio mewn tîm yn ei phrosiect cyntaf, 'Beirdd y Tywysogion', ac mae'r egwyddor yn arwain ein gwaith hyd heddiw.

Mae **Llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol** yn parhau i fod yn gonglafan pwysig i'n hymchwil. Ers ei sefydlu ym 1985, arweiniodd y Ganolfan y gad ym maes golygu testunau barddoniaeth, gan ddarparu golygiadau safonol sy'n sail gadarn ar gyfer ysgolheigion iaith a llenyddiaeth y Gymraeg yn ogystal â meysydd hanesyddol a chymdeithasol. Cyhoeddwyd ffrwyth y ddau brosiect cyntaf, Cyfres Beirdd y Tywysogion mewn saith cyfrol a Chyfres Beirdd yr Uchelwyr mewn 44 o gyfrolau print. Mae'r rhain bellach arlein drwy grant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ers 2008 rydym wedi bod yn cyhoeddi'n bennaf yn y cyfrwng digidol, gan greu gwefannau arloesol megis Gwefan Guto'r Glyn (2012), Seintiau Cymru, ac (mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd) Barddoniaeth Myrddin (2025).

Rydym hefyd yn golygu testunau rhyddiaith, gan gynnwys bucheddau seintiau a thestunau Cyfraith Hywel Dda, gyda Dr Angharad Elias yn arbenigo yn y testunau cyfreithiol. Ein prosiect diweddaraf yn y mae hwn yw 'Gutun Owain: Cymro Cynta'r Dadeni?' dan Grant Catalydd yr AHRC (2025-8), a arweinir gan Dr Jenny Day.

Rydym yn falch o gyhoeddi y noddir Fforwm Beirdd yr Uchelwyr o'r gwanwyn nesaf ymlaen drwy rodd hael gan deulu'r Cyfarwyddwr gweithredol cyntaf, er cof am gyfraniad eu rhieni, Luned ac R. Geraint Gruffydd.


Celebrating the fortieth anniversary is an opportunity to look at the highlights of the past decades as well as to focus on the recent successes and future direction of the Centre.

At the core of our mission is team-based collaborative research projects which the Centre pioneered in its first project 'Beirdd y Tywysogion – The Poets of the Princes'. This approach guides our work to this day.

**Medieval Welsh literature** remains an important cornerstone of our research. Since its establishment in 1985, the Centre has led the field in editing poetry texts, giving scholars standard editions which provide them with a solid foundation for the study of Welsh language and literature as well as related fields. The outputs of the first two projects, the Poets of the Princes Series (7 volumes) and the Poetry of the Nobility Series (44 volumes), were published in print volumes, which are now available online, made possible by a grant from the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Since 2008 we have published mainly in digital form, creating innovative websites such as the Guto'r Glyn Website (2012), The Saints of Wales, and (in partnership with Cardiff University) Myrddin Poetry (2025).

We also edit prose texts, including the Lives of saints, and legal texts relating to the Laws of Hywel Dda under the expertise of Dr Angharad Elias. Our most recent project in this area is 'Gutun Owain: The First Welsh Renaissance Man?', an AHRC Catalyst award 2025-8, led by Dr Jenny Day.

We are pleased to announce that Fforwm Beirdd yr Uchelwyr (The Poets of the Nobility Forum) will be sponsored from next spring through a generous donation from the family of the first executive Director, in memory of the contribution of their parents, Luned and R. Geraint Gruffydd.



## Y Seintiau

Arweiniodd prosiectau o dan nawdd yr AHRC, rhwng 2013 a 2022, at gyhoeddi golygiadau newydd o lenyddiaeth ganoloesol Gymraeg a Lladin yn ymwneud â seintiau Cymru gynnar. Bu cydweithio rhwng y Ganolfan, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Coleg y Brenin Llundain a Phrifysgol Caer-grawnt. Datblygyd adnodd 'Cwlt y Seintiau yng Nghymru' (seintiau.cymru) sy'n cyflwyno gwybodaeth am seintiau Cymru i gynulleidfa ehangach, ac yn cynnwys mapio'r lleoedd sy'n coffáu eu henwau a dangos sut y portreadir hwynt mewn celfyddyd weledol.




## Saints

Successive AHRC-funded projects, between 2013 and 2022, supported the publication of new editions of medieval literature, composed in both Welsh and Latin, about the saints of early Wales. The projects involved collaborations between the Centre, the National Library of Wales, King's College London and the University of Cambridge. This included developing a resource (saints.wales) presenting information about the Welsh saints – including mapping the locations where they were venerated and how they have been represented in visual art.





## A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes

Yn 2022, cyhoeddodd y Ganolfan a Llyfrgell Genedlaethol Cymru orchestwaith Dr Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c.800-c.1800*. Gyda Dr Gruffudd Antur wedi ymuno â'r Ganolfan, mae staff y ddau sefydliad yn cydweithio gydag arbenigwyr ym maes y Dyniaethau Digidol ym Mhrifysgol Caer-grawnt i ddatblygu'r adnodd ymhellach.




In 2022, the Centre and the National Library of Wales published Dr Daniel Huws's masterpiece, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes, c.800-c.1800*. Staff at the Centre – including Dr Gruffudd Antur – and NLW are collaborating with experts in the field of Digital Humanities at Cambridge University to further develop the resource.





## Geiriadur Prifysgol Cymru

Ym 1921 sefydlodd Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru gynllun i gynhyrchu geiriadur Cymraeg hanesyddol safonol ar lun yr *Oxford English Dictionary*. Treuliwyd 27 o flynyddoedd yn casglu tystiolaeth a chyhoeddwyd y Geiriadur mewn pedair cyfrol rhwng 1950 a 2002. Daeth y cynllun yn rhan o'r Ganolfan Uwchefrydiau yn 2006 pan ddiddymwyd y Bwrdd Gwybodau Celtaidd ac mae'r tîm bellach yn ailoli y Geiriadur yn drylwyr ac yn ychwanegu ato. Lansiwyd fersiwn ar lein llawn yn 2014 sydd ar gael am ddim i'r cyhoedd, a'i ddilyn gan apiau ar gyfer iOS ac Android yn 2016. Yn ystod 2024 cofnodwyd bron i 3 miliwn o chwiliadau ar draws y plafformau hyn. Heddiw, cefnogir ein gwaith geiriadurol gan strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Golygydd Rheolaethol y Geiriadur yw Andrew Hawke, y Golygyddion Hŷn yw'r Athro Ann Parry Owen a Dr G. Angharad Fychan, a'r pedwar Golygydd Cynorthwyol yw Brenda Williams, Mary Williams, Dr Talat Chaudhri a Catrin Huws.



In 1921 the University of Wales Board of Celtic Studies established a project to produce a standard historical dictionary of Welsh modelled on the *Oxford English Dictionary*. 27 years were spent collecting evidence and the Dictionary was published in four volumes between 1950 and 2002. The project became part of the Centre in 2006 when the Board of Celtic Studies was disbanded, and the team is now revising and augmenting the Dictionary thoroughly. A full online version was launched in 2014, which is freely available to the public, followed by apps for iOS and Android in 2016. In 2024 almost 3 million searches were recorded across these platforms. Today our lexicography work is supported by the Welsh Government's Cymraeg 2050 (A million Welsh speakers) strategy. The Dictionary's Managing Editor is Andrew Hawke, the Senior Editors are Professor Ann Parry Owen and Dr G. Angharad Fychan and the Assistant Editors are Brenda Williams, Mary Williams, Dr Talat Chaudhri and Catrin Huws.



## Astudiaethau Enwau Lleoedd

Mae enwau lleoedd yng Nghymru, ac enwau Cymraeg a Cheltaidd mewn rhannau eraill o Brydain, yn faes ymchwil pwysig i'r Ganolfan. Buom yn cydweithio â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i greu'r Rhestro Enwau Lleoedd Hanesyddol, sy'n adnodd statudol gan Lywodraeth Cymru.

Dr David Parsons sy'n arwain yr ymchwil i enwau lleoedd hanesyddol, a ffrwyth prosiect ar enwau lleoedd swydd Amwythig oedd ei gyfrol *Welsh and English in Medieval Oswestry* (2022), ymystg cynhyrchion eraill.

Mae Dr Angharad Fychan, yr Athro Ann Parry Owen a Gareth Bevan yn aelodau o Banel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg. Maent ill tri hefyd yn weithgar gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, ac mae'r Ganolfan yn cefnogi ei chynhadledd flynyddol.

Rydym bellach yn ymchwilio i ranbarthau eraill lle mae'r ieithoedd Celtaidd wedi siapio'r map modern. Yn 2025 dyfarnwyd grant safonol tair blynedd gan yr AHRC i David Parsons ar gyfer 'Return to a Drowned Landscape: The Place Names of the Isles of Scilly'.




## Place-Name Studies

Welsh place-names, and the Celtic names elsewhere in the British Isles, are an important strand in the Centre's work. We have worked with the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales to establish the List of Historic Place-Names of Wales, a statutory resource of Welsh Government.

Dr David Parsons leads on historic place-name research, and his work on the AHRC-funded 'The Place-Names of Shropshire' led to the publication – amongst other outputs – of his *Welsh and English in Medieval Oswestry* (2022).

Dr Angharad Fychan, Professor Ann Parry Owen and Gareth Bevan are members of the Welsh Language Commissioner's Place-Names Standardisation Panel. They are also involved with the Welsh Place-Name Society, and the Centre supports the society's annual conference.

We also research other regions where Celtic languages have significantly shaped the modern map. In 2025 David Parsons was awarded a three-year AHRC Standard Grant for 'Return to a Drowned Landscape: The Place Names of the Isles of Scilly'.



## Ieithoedd Celtaidd Cynnhar

Er 1997, mae'r Ganolfan wedi arloesi mewn ymchwil i ieithyddiaeth Geltaidd gynnar gyda chyfres o brosiectau o dan arweiniad yr Athro John Koch, megis 'Yr Ieithoedd Celtaidd a Hunaniaeth Ddiwylliannol', 'Prydai Hynafol a Pharthau Môr Iwerydd' ac 'Ewrop Môr Iwerydd yn Oesoedd y Metelau'.

Cafodd y prosiect ymchwil rhyngddisgyblaethol 'Celfyddyd Cerrig, Ewrop Môr Iwerydd, Geiriau a Rhyfelwyr' (2019–23) gefnogaeth ariannol gan Gyngor Ymchwil Sweden (Vetenskapsrådet) a dehonglwyd tystiolaeth o Llychlyn, Cymru a Phenrhyn Iberia gyda chyfuniad blaengar o feisydd ieithyddiaeth, archaeoleg a geneteg.


Bellach mae John Koch yn cydweithio ag ysgolheigion ym Mhrifysgol Göteborg ar brosiect 'Cyfrangau Arforol', sy'n mynd i'r afael â phatrymau ymfudo, symudedd a chyfnewisod o Norwy i Iberia hyd ffasâd yr Iwerydd yn y cyfnod cynhanes.

## Early Celtic Linguistics

Since 1997, the Centre has led research into early Celtic linguistics through several funded projects under the leadership of Professor John Koch. These include 'The Celtic Languages and Cultural Identity', 'Ancient Britain and the Atlantic Zone' (ABrAZo), and 'Atlantic Europe in the Metal Ages'.

The interdisciplinary research project 'Rock Art, Atlantic Europe, Words & Warriors' (RAW; 2019–23), funded by the Swedish Research Council (Vetenskapsrådet), interpreted evidence gathered in Scandinavia, Wales and the Iberian Peninsula, synthesising cutting-edge input in linguistics, archaeology and genetics.

John Koch is currently collaborating with colleagues at the University of Gothenburg on 'Maritime Encounters', which seeks to understand migration, mobility and exchange along the Atlantic façade from Norway to Iberia in Prehistory.



## Diywylliant Gweledol

Er 1996 bu'r Ganolfan yn arloesi mewn ymchwil newydd bwysig i ddiwylliant gweledol Cymru. Cyhoeddodd y prosiect 'Diywylliant Gweledol Cymru', dan arweiniad Peter Lord, dair cyfrol brintiedig ac electronig ar hanes diwylliant gweledol yng Nghymru o'r Oesoedd Canol Cynnhar hyd y 1960au.

Ymystg y prosiectau a'i dilynodd roedd 'Delweddu'r Beibl yng Nghymru' (2005–8) a 'Gwydr Lliw yng Nghymru' (2009–11). Yn ddiweddar, rydym wedi rhoi sylw i Archif Gwydr Lliw Coleg Celf Abertawe. Bydd prosiect newydd yn y maes hwn yn ystyried sut rydym yn gwerthuso arwyddocâd gwydr lliw. Cynhelir 'Arwyddocâd Gwydr Lliw' (2025–8) dan nawdd Catalyst yr AHRC a'i arwain gan Dr Martin Crampin.



## Visual Culture

The Centre has pioneered important new research into the visual culture of Wales since 1994. The 'Visual Culture of Wales' project, led by Peter Lord, published three printed and electronic volumes on the history of visual culture in Wales from the Early Middle Ages up to the 1960s.

Subsequent projects include 'Imaging the Bible in Wales' (2005–8) and 'Stained Glass in Wales' (2009–11). Recent work has focused on the Stained Glass Archive in the Swansea College of Art. Future work in this area will consider how we evaluate the significance of stained glass, funded by an AHRC Catalyst project (2025–8) led by Dr Martin Crampin.



## Rhamantiaeth a'r Oleuedigaeth yn y Gwledydd Celtaidd

Rhwng 1700 a 1900 trawsnewidiwyd Cymru mewn ffyrdd anhygoel. Mae cynhysgaeth y canrifoedd hyn – effeithiau amgylcheddol, trefedigaethol, cymdeithasol ac ieithyddol – yn parhau i siapio ein byd ni heddiw. Ers degawdau mae'r Ganolfan wedi bod yn hyrwyddo gwaith rhngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â chyblethu diwylliannol y cyfnod. O astudiaethau manwl ar unigolion fel y rhyfeddol Iolo Morganwg hyd at leisiau amrywiol y rhai oedd yn profi cynnwrf y Chwyldro Ffrengig, neu ymatebion teithwyr o rannau eraill o Brydain a chyfandir Ewrop i Gymru, mae ein hymchwil dan nawdd yr AHRC yn gosod bywydau a gwaith ysgrifenedig y Cymry yn eu cyd-destun.

Heddiw mae ein hymchwil i Thomas Pennant yn parhau, mewn partneriaeth â Phrifysgol Glasgow a'r Amgueddfa Byd Natur yn Llundain. Ystyriwn ei waith a'i gasgliadau yn eu cyd-destunau trefedigaethol ac amgylcheddol, gan gydweithio hefyd â Chymdeithas Thomas Pennant a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Arweinir y prosiect hwn gan yr Athro Mary-Ann Constantine, gyda Dr Ffion Mair Jones, Dr Elizabeth Edwards, Dr Rhys Kaminski-Jones a Dr Martin Crampin yn aelodau o'r tîm.



## Romanticism and Enlightenment in the Celtic Countries

Between 1700 and 1900 Wales underwent unimaginable changes. The legacies of those centuries – environmental, colonial, social and linguistic – shape our world today. The Centre has played a leading role in supporting interdisciplinary work reflecting the entangled cultures and languages of the period. From in-depth explorations of individuals such as the flawed genius Edward Williams (Iolo Morganwg) to the range of voices responding to the French Revolution and the responses of British and European travellers to Wales, our AHRC-funded research situates the lives and writings of Welsh people in national and international contexts.



Our current project, a collaboration with the University of Glasgow and the Natural History Museum, London, explores the writings and specimen collections of the Welsh naturalist Thomas Pennant in their colonial and environmental contexts, in partnership with the Thomas Pennant Society and the National Library of Wales. It is led by Professor Mary-Ann Constantine with Dr Ffion Mair Jones, Dr Elizabeth Edwards, Dr Rhys Kaminski-Jones and Dr Martin Crampin as members of the team.



## Cysylltiadau Cyfoes Rhwng Cymru a'r Gwledydd Celtaidd



O'i hanfod, mae Astudiaethau Celtaidd yn faes cymharol, gyda llawer o waith y Ganolfan yn canolbwntio ar Gymru yn ei chysylltiadau â'r gwledydd Celtaidd a rhannau eraill o'r byd. Ymmsg ein prosiectau AHRC yn y maes hwn mae 'Teithwyr Ewropeaidd yng Nghymru 1750–2010' a 'Teithwyr i Gymru', a oedd yn dadansoddi'r wlad a Chymreictod drwy deithlyfrau hanesyddol, almanaciau, gwyddoniaduron, dyddiaduron a thestunau eraill.



O dan arweiniad yr Athro Mary-Ann Constantine, rhoddodd y prosiect 'Porthladdoedd Ddoe a Heddiw' (ERDF; 2019–23) gyfle i ni gydweithio gydag awduron ac artistiaid wrth ymchwilio i'r cysylltiadau masnachol, crefyddol, gwleidyddol, hamdden a theuluol a fu rhwng Cymru ac Iwerddon dros y canrifoedd.



Ers dros bymtheng mlynedd, bu'r Ganolfan yn cydweithio'n agos â'r Centre de recherche bretonne et celtique ym Mhrifysgol Brest. Oddi ar 2022, o dan arweiniad yr Athro Heather Williams, bu'r ddwy ganolfan yn gweithio ar brosiect a gyllidwyd gan CollexPersée i fynd i'r afael ag archifau Cymreig yn Llydaw a'r archifau Llydewig yng Nghymru, mewn cydweithrediad â'r Llyfrgell Genedlaethol.

## Contemporary Connections Between Wales and the Celtic Countries

Celtic Studies is an inherently comparative discipline. Much of the work at the Centre examines Wales and its connections with the Celtic countries and other parts of the world. AHRC-funded projects in this area include 'European Travellers to Wales 1750–2010' and 'Travellers to Wales', which examined the representations of Wales and Welshness through travelogues, almanacs, encyclopaedias, diaries and other texts.



Under the leadership of Professor Mary-Ann Constantine, the ERDF project 'Ports Past and Present' (2019–23) gave us an opportunity to work with writers, artists and local communities in the five ferry ports around the Irish Sea, exploring centuries of connections – economic, religious, political and personal – between Wales and Ireland.

For over fifteen years, the Centre has worked closely with the Centre de recherche bretonne et celtique at the University of Brest. Since 2022, under the leadership of Professor Heather Williams, the two centres have worked on a Collex-Persée-funded project to explore the Welsh archives in Brittany and the Breton archives in Wales, in collaboration with the National Library of Wales.



## Y Bywgraffiadur Cymreig

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am *Y Bywgraffiadur Cymreig* mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd cyfrolau gwreiddiol y *Bywgraffiadur* gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion, ac mae'r cyfan bellach ar gael yn rhad ac am ddim arlein. Yr Athro Emeritus Dafydd Johnston yw'r Golygydd ar hyn o bryd, gyda'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones yn Olygydd Cynorthwyo.

## The Dictionary of Welsh Biography

The Centre is responsible for *The Dictionary of Welsh Biography* in partnership with the National Library of Wales. The original volumes were published by the Honourable Society of Cymmrodorion, and the entire contents are now freely available online. The current Editor is Emeritus Professor Dafydd Johnston with Professor Elin Haf Gruffydd Jones as Assistant Editor.

## Cyfeithu Llenyddol a Thestunol

Mae cyfeithu llenyddol a thestunol wedi cysylltu'r ieithoedd Celtaidd gyda ieithoedd llafar ac ysgrifenedig eraill ar hyd y canrifoedd, ac mae'r rôl ganolog i gyfeithu yn nifer fawr o brosiectau'r Ganolfan.

Heddiw arweinir y maes hwn gan Alexandra Büchler, Dr Elizabeth Edwards a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones, gyda Nici Beech, gan ganolbwytio ar feisydd polisi, dynaethau digidol ac ymgysylltu strategol gyda'r sector yng Nghymru ac yn rhwngwladol.

Mae'r Ganolfan yn gartref i Gyfnewidfa Lên Cymru ac i Lenyddiaeth ar draws Ffiniau – a gefnogir gan Gyngor y Celfyddydau a Chymru Greadigol – gan gysylltu Cymru a'r byd drwy gyfeithu llenyddol cyfoes a chyfnewid diwylliannol.

Bu'r Gyfnewidfa Lên a Lenyddiaeth ar draws Ffiniau yn allweddol wrth sefydlu'r Rhwydwaith Ewropeidd ar gyfer Cyfeithu Llenyddol (ENLIT) ynghyd ag Ymgyrch Dinas Llên Aberystwyth-Ceredigion i geisio dynodiad UNESCO i'r ardal.

Lletyir casgliad arbenigol o lenyddiaeth gan awduron Cymreig mewn cyfeithiadau i dros 40 o ieithoedd yn Llyfrgell y Ganolfan, y mwyaf yn ffrwyth gwaith strategol Cyfnewidfa Lên Cymru a Lenyddiaeth ar draws Ffiniau.

## Literary and Textual Translation



Literary and textual translation has connected the Celtic languages with other vernacular and written languages across the centuries. Translation is central to many of the Centre's research projects.

Today this theme is led by Alexandra Büchler, Dr Elizabeth Edwards and Professor Elin Haf Gruffydd Jones, with Nici Beech, focusing on policy, digital humanities and strategic engagement with the sector in Wales and internationally.

The Centre is home to Wales Literature Exchange and Literature Across Frontiers – supported by the Arts Council of Wales and Creative Wales – connecting Wales and the world through contemporary literary translation and cultural exchange.

Both are founding members of the European Network for Literary Translation and also of the Aberystwyth-Ceredigion City of Literature Campaign to achieve UNESCO designation for the area.

A specialist collection of Welsh literature in translations into over 40 languages is housed in the Centre Library, published largely as the result of the strategic work of Wales Literature Exchange and Literature Across Frontiers.



## Polisi a Chynllunio Iaith – Ieithoedd Lleiafrifedig Ewrop

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn adeiladu ar y gyfres arloesol Hanes Cymdeithasol yr Iaith Gymraeg, a olygyd gan yr Athro Geraint H. Jenkins.

